# Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

# GRANTIAU CYNNAL ADDYSG A HYFFORDDIANT (GEST)

## Y Mater o dan Sylw

1. Rhaglen GEST ar gyfer 2002-3, gan gynnwys newidiadau i'r fformwla ddyrannu.

## Y Cefndir

2. Y rhaglen GEST (Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant) yw un o'r prif ddulliau sydd gan y Cynulliad o gynnal mesurau sydd â'r nod o godi safonau mewn ysgolion. Mae'n rhoi arian grant i awdurdodau addysg lleol ar gyfer amryfal weithgareddau, gan gynnwys mesurau i wella presenoldeb yn yr ysgol ac i wella ymddygiad; cymorth ar gyfer strategaethau llythrennedd a rhifedd; cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig; y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth; y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig; arian TGCh; a datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a phenaethiaid. Nodir y gweithgareddau cymwys mewn rheoliadau, a darperir canllawiau manwl trwy gyfrwng y Cylchlythyr GEST blynyddol yr ymgynghorir â'r Awdurdodau Addysg Lleol yn ei gylch.

3. Fel rheol, telir arian GEST yn ôl cyfradd grant o 60% ac mae'n ofynnol i'r awdurdodau addysg lleol ddarparu'r arian cyfatebol, sef 40%. Darperir cyllid trwy'r setliad refeniw llywodraeth leol er mwyn galluogi'r awdurdodau addysg lleol i fodloni'r gofyniad o ran darparu arian cyfatebol. Dosberthir grantiau GEST yn unol â fformwla ddyrannu sy'n cynnwys ffactorau i adlewyrchu anghenion a phwysau lleol, gan gynnwys nifer y disgyblion, athrawon ac ysgolion, dull o fesur teneurwydd poblogaeth ac, ers 2001, dull o fesur amddifadedd cymdeithasol.

4. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o strwythur y rhaglen GEST yn 2000 er mwyn sicrhau ei bod yn fwy cydnaws â'r blaenoriaethau yn Gwell Cymru. Yn ystod 2001, mae Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdodau addysg lleol wedi cydweithio ar adolygiad o'r fformwla ddyrannu ar gyfer GEST er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â ffocws newydd y rhaglen, sef mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol. Yn ystod 2001-2, bydd swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdodau addysg lleol a budd-ddeiliaid eraill ar adolygiad o sut y mae'r rhaglen GEST yn cael ei gweinyddu, gyda golwg ar leihau biwrocratiaeth, gwella gwaith cynllunio, a datblygu fframwaith strwythuredig ar gyfer monitro a gwerthuso.

## Y rhaglen GEST ar gyfer 2002-3

5. Ar ôl yr adolygiad cynhwysfawr o raglen GEST yn 2000, y nod ar gyfer 2002-3 oedd

cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl. Bydd hyn yn rhoi cyfnod o sefydlogrwydd i'r awdurdodau addysg lleol ac i'r ysgolion, er mwyn eu helpu i ymateb i newidiadau ariannol sy'n deillio o fformwla ddiwygiedig ar gyfer GEST, ac i ystyried goblygiadau'r cynigion yn y ddogfen *Y Wlad sy'n Dysgu*. Mae'r prif bwyntiau i'w nodi ar gyfer 2002-3 fel a ganlyn:

- newidiwyd yr amserlen ar gyfer cyflwyno cynlluniau GEST. Bydd gofyn eu cyflwyno erbyn mis Tachwedd er mwyn i ni fedru asesu'r cynlluniau a chadarnhau dyraniadau erbyn mis Ionawr 2002. I bob pwrpas, bydd hyn yn golygu y byddwn yn mynd yn ôl at yr amserlen wreiddiol ar gyfer GEST, sydd wedi bod ar ei hôl hi braidd yn y gorffennol, er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdodau addysg lleol a'r ysgolion ddigon o amser i baratoi ar gyfer rhoi'r rhaglen GEST ar waith o fis Ebrill 2002 ymlaen. Ein nod yw cyhoeddi cylchlythyr GEST fis yn gynt yn 2002 er mwyn i'r awdurdodau a'r ysgolion gael mwy o amser nag a oedd ar gael eleni i drafod y rhaglen ddrafft.

- mae'r arian ychwanegol sydd ar gael wedi'i dargedu at Weithgaredd 5 (Mynd i'r afael ag Anfantais Gymdeithasol) a Gweithgaredd 6 (Anghenion Addysgol Arbennig). Yr ydym hefyd wedi ysgwyddo cost talu am gysylltu ysgolion â'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, swm a oedd gynt yn cael ei dynnu o'r rhaglen *O Fudd-dâl i Waith*.

- bydd cyllid ar gyfer Cynlluniau Peilot Cynllunio Rhanbarthol ar gyfer Anghenion Addysg Arbennig yn dod i ben ym mis Mawrth 2002-3. Mae'n fwriad gennym gefnogi prosiect cenedlaethol y tu allan i GEST. Er hynny, mae yna faes blaenoriaeth newydd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig a fydd yn darparu cymorth ar gyfer Therapi Iaith a Therapi Lleferydd.

- mae'n fwriad gennym barhau â'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth am flwyddyn arall, tra'n disgwyl canlyniadau astudiaeth werthuso annibynnol.

- byddwn yn parhau i roi cymorth ar gyfer darparu cynorthwywyr yn yr ystafell ddosbarth trwy'r Gronfa Cymorth yn yr Ystafell Ddosbarth. Gwahoddwyd yr awdurdodau addysg lleol i ystyried a oedd posibilrwydd o gyfuno'r flaenoriaeth hon gyda'r Gronfa Gwella Ysgolion (neu ei hymestyn i gefnogi ystod ehangach o fesurau er mwyn ysgafnhau'r baich biwrocrataidd ar ysgolion). Er hynny, ni ddeilliodd unrhyw gynigion pendant o'r ymgynghori â'r awdurdodau addysg lleol.

- mae cyfradd y grant ar gyfer y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig bellach yn gydnaws â'r gyfradd ar gyfer gweddill y rhaglen, h.y. fe'i newidiwyd o 70% i 60%. Mae'r arian hwn yn dal i gael ei glustnodi at ddibenion penodol ac nid oes unrhyw effaith ar gyfanswm y cyllid ar gyfer y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, gan fod darpariaeth yn y setliad refeniw ar gyfer y swm uwch o arian cyfatebol. Byddwn yn cadw llygad ar effaith y newid hwn i weld a oes unrhyw awdurdodau addysg lleol yn cael anhawster wrth sicrhau'r arian cyfatebol angenrheidiol.

6. Ymgynghorwyd eisoes â’r awdurdodau addysg lleol am y cylchlythyr GEST ar gyfer 2002-3, ac at ei gilydd, yr oeddent yn fodlon â chynnwys y rhaglen arfaethedig. Yr oedd yr awdurdodau hefyd yn croesawu’r ffaith bod y Cylchlythyr wedi’i gyhoeddi’n gynt, ac yn rhoi croeso hefyd i’r bwriad i gyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl tra bod y fformwla ddyrannu newydd yn cael ei chyflwyno. Mae’r newidiadau a wnaed ar ôl trafod gyda’r awdurdodau addysg lleol fel a ganlyn:

- eglurhad o’r rheolau trosglwyddo arian sy’n effeithio ar Weithgaredd 7 (yr Iaith Gymraeg);
- cadarnhad y caniateir defnyddio arian Gweithgaredd 6 (Anghenion Addysgol Arbennig) ar gyfer seicolegwyr addysgol sy’n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- diweddarwyd Gweithgareddau 4, 5 a 10 er mwyn adlewyrchu’r datblygiadau diweddaraf o safbwynt polisi.

**Yr adolygiad o fformwla GEST**

7. Dosbarthwyd adroddiad cyd-weithgor y Cynulliad/yr awdurdodau addysg lleol ar yr adolygiad o fformwla GEST i aelodau’r Pwyllgor gyda chopi o lythyr y Gweinidog at y Cadeirydd ym mis Gorffennaf. Mae’r gweithgor wedi cynnig bod newidiadau mawr yn cael eu gwneud i fformwla GEST er mwyn sicrhau bod y dyraniadau yn fwy cydnaws â’r angen am arian, yn hytrach nag yn ategu’r anghydraddoldeb presennol o ran darpariaeth addysg. Mae’r newidiadau a argymhellir yn cynnwys cynnydd sylweddol yn y pwysiad ar gyfer amddifadedd cymdeithasol, yn ogystal â mesurau eraill a fydd yn ailgyfeirio adnoddau i ardaloedd mwy difreintiedig Cymru. Er hynny, maent hefyd yn rhoi ystyriaeth i anghenion awdurdodau gwledig trwy gyflwyno dull mwy cywir o fesur teneurwydd poblogaeth.

8. Os caiff ei chyflwyno, bydd y fformwla newydd yn golygu y caiff arian ei ailddosbarthu rhwng yr awdurdodau. O’r herwydd, mae’r gweithgor wedi argymell y dylid cyflwyno’r newidiadau hyn yn raddol dros gyfnod o dair blynedd, er mwyn tarfu i’r graddau lleiaf posibl ar y gwaith o gyflwyno rhaglenni GEST.

10. Yr oedd y gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr awdurdodau unigol. Yr oedd papurau gwaith manwl ar gael i bob awdurdod addysg lleol yn ystod yr adolygiad, a thrafodwyd adroddiad y gweithgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Awst i ymgynghori â’r awdurdodau addysg lleol ynghylch GEST. Mae nifer bach o awdurdodau (tri) wedi cyflwyno sylwadau ers hynny, gan bwyso am newidiadau pellach o blaid yr awdurdodau hynny y mae anfantais gymdeithasol yn effeithio fwyaf ar eu disgyblion. Er hynny, ymddengys fod mwyafrif yr awdurdodau addysg lleol yn cefnogi’r cynigion yn adroddiad y gweithgor.

**Cydymffurfio**

10. Telir arian GEST o dan adrannau 484 a 487 o Ddeddf Addysg 1996 a’r rheoliadau

cysylltiedig. Mae’r pwerau hyn wedi’u trosglwyddo i’r Cynulliad a’u dirprwyo i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Nid oes unrhyw faterion sy’n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn codi o’r papur hwn. Yn ôl ein harfer, mae copi o’r papur hwn wedi’i anfon i flwch post Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad.

**Goblygiadau ariannol**

11. Yr oedd cyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2002-3 yn cynnwys gwerth £36.010m o arian llinell sylfaen ar gyfer GEST (net, ac eithrio cyfraniadau arian cyfatebol oddi wrth yr awdurdodau lleol). Darperir ar gyfer y rhaglen GEST arfaethedig ar gyfer 2002-3 o fewn y ddarpariaeth y cytunwyd arni. Felly, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o’r papur hwn. Yn ôl ein harfer, mae copi o’r papur hwn wedi’i anfon er gwybodaeth i flychau post yr Is-adran Cynllunio Ariannol a’r Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol.

**Camau i’w Cymryd gan y Pwyllgor**

12. Estynnir gwahoddiad i’r Pwyllgor nodi a chymeradwyo’r rhaglen GEST ar gyfer 2002-3, gan gynnwys y fformwla ddyrannu ddiwygiedig.